



CYNGOR  
monmouthshire  
COUNTY COUNCIL  
*sir fynywy*

Eich canllaw chi i drefnu  
Cau Ffordd er mwyn cynnal  
Parti Stryd ar gyfer y  
Jiwbilê Platinwm  
2<sup>ail</sup> – 5<sup>ed</sup> Mehefin 2022

Nodiadau i'ch helpu i  
wneud cais

---

Ffurflen Gais

---

Amodau ar gyfer Caniatâd ac Indemniad

---

Enghraifft o Lythyr Ymgynghori

---



## Cyngor Sir Fynwy

### **Nodiadau ar gyfer cau ffordd er mwyn trefnu parti stryd ar gyfer y Jiwbilî Platinwm: 2ail – 5ed Mehefin 2022**

Mae partiön stryd yn rhan draddodiadol o fywyd cymunedol; maent yn ffordd syml i bobl ddod i adnabod eu cymdogion a chwrrd ag aelodau o'u cymunedau.

Mae'r Cyngor am wneud pethau yn fwy hawdd i bobl i gynnal y fath ddigwyddiadau er mwyn dathlu'r Jiwbilî Platinwm rhwng yr 2ail a'r 5ed o Fehefin. Mae wedi creu'r canllaw syml hwn felly ar sut i gynnal parti stryd bach yn eich cymuned/stryd leol. Mae'n cynnwys ffurflen gais a ffurflen indemniad er mwyn i chi eu cwblhau a'u danfon at Gyngor Sir Fynwy, fel eich bod yn medru bwrw ymlaen gyda'r gwaith go iawn o drefnu eich parti stryd.

Mae trefnu partiön stryd bach, preifat yn hawdd iawn ac nid yw fel arfer yn cynnwys gweithgareddau sydd angen trwydded, fel gwerthu alcohol neu ddarparu math penodol o adloniant.

Os ydych am werthu alcohol neu'n bwriadu cynnig adloniant i'r cyhoedd ehangach, neu godi ffi er mwyn casglu arian ar gyfer eich digwyddiad neu gynnal digwyddiad cyhoeddus mwy, bydd angen i chi wneud cais swyddogol drwy broses wahanol, a hynny drwy'r Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch Digwyddiadau. Mae manylion y Grŵp ar gael yma - [www.monmouthshire.gov.uk/esag](http://www.monmouthshire.gov.uk/esag)

### ***Mae'r Cyngor am gefnogi'r partiön stryd ond rhaid i chi sicrhau eich bod yn cyflwyno eich cais ar frys.***

Os hoffech gynnal parti bach er mwyn dathlu'r Jiwbilî Platinwm, defnyddiwch y ffurflen gais er mwyn hysbysu'r Cyngor o'r digwyddiad (parti stryd) a gwnewch gais ar gyfer unrhyw ffordd (ffyrdd) sydd angen cau.

***Er mwyn cynnal parti stryd ar neu o fewn priffyrdd, rhaid i chi ofyn am ganiatâd a chael y caniatâd priodol gan y Cyngor er mwyn sicrhau eich bod yn medru cau'r ffordd i draffig, a hynny yn gyfreithlon ac yn ddiogel.***

Y darn gorau o gyngor ar gyfer cynnal parti stryd yw cynllunio a dechrau'r paratodau yn gynnar. Ystyriwch yr hyn yr ydych am ei gyflawni, yna cyflwynwch y ffurflen gais i Gyngor Sir Fynwy, **erbyn 3ydd Mai 2022.**

Mae mwy o gyngor defnyddiol a chefnogaeth ar gyfer trefnu digwyddiad llwyddiannus ar gael yma [www.streetparty.org.uk](http://www.streetparty.org.uk)

## CYNGOR SIR FYNWY

Jiwbilî Platinwm: 2ail – 5ed Mehefin 2022 – FFURFLEN GAIS

### HYSBYSIAD - CAIS AM BARTI STRYD / DIGWYDD CAU Ffordd ARFAETHEDIG

#### PEIDIWCH Â CHEISIO CAU'R BRIFFORDD NEU UNRHYW RAN O'R BRIFFORDD HEB YR AWDURDOD PERTHNASOL (GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG)

#### MANYLION Y DIGWYDDIAD

Lleoliad - Enw'r Stryd / Tref / Pentref

Amcangyfrif o'r nifer o bobl sydd yn mynychu (amcangyfrif)

Enw'r ymgeisydd (trefnydd y digwyddiad):

Mudiad (os yn berthnasol):

Cyfeiriad cyswllt (gan gynnwys y cod post):

Rhif ffôn (yn ystod y dydd):

Rhif ffôn (gyda'r hwyr):

Cyfeiriad e-bost:

A fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ar y ffordd neu'n gorgyffwrdd â'r ffordd? Os **FELLY**, rhaid cwblhau pob un rhan o'r ffurflen hon er mwyn gwneud cais i gau'r ffordd (ffyrdd). Os **NA**, yna disgrifiwch ble y mae'r digwyddiad yn mynd i gael ei gynnal e.e. Lawnt y Pentre, man agored ayyb fel bod modd i ni hysbysu'r adran briodol.

**MANYLION AM Y FFORDD SYDD I'W CHAU (RHAID cwblhau pob un rhan yn llawn)**

Enw'r ffordd (ffyrdd) i'w chau:

Amser y digwyddiad (parti stryd)

**(Noder – Byddwn ond yn caniatáu i chi gau'r ffordd rhwng 10:00am a 8:00pm rhwng yr 2<sup>ail</sup> a'r 5<sup>ed</sup> o Fehefin 2022)**

Os ydych yn bwriadu cau'r ffordd yn llawn neu ran o'r ffordd (ffyrdd), ble fyddwch yn dechrau ac yn gorffen cau'r ffordd? **Dylech ddarparu copi o gynllun wedi ei farcio'n gwbl eglur (ar raddfa addas) yn dangos faint o'r ffordd yr ydych am gau.** At hyn, nodwch y rhif tŷ, y ffin safle neu'r gyffordd agosaf?

O:

I:

Dylech roi rhestr gryno i ni o'r eiddo sydd wedi ei effeithio. Mae yn golygu unrhyw eiddo, preswyl neu fasnachol, sydd wedi ei leoli ar y ffordd (ffyrdd) neu mae ond modd cael mynediad at yr eiddo drwy gyfrwng y ffordd (ffyrdd) yr ydych am gau e.e. rhifau Cedar Close 1-20 a rhifau 21-98.

**NODIADAU AR GAU FFYRDD - PWYSIG**

*Dim ond cul-de-sac preswyl neu ffyrdd llai na sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer traffig trwodd a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer cael eu cau o dan y broses hon sydd wedi ei symleiddio.*

*Dylid sicrhau bod cerbydau'r Gwasanaeth Argyfwng/Brys, trigolion/busnesau dal yn medru cyrraedd a gadael eu heiddo drwy'r amser, a hynny gymaint ag sydd yn rhesymol ymarferol*


**ARWYDDION/CONAU/RHWYSTRAU AR GYFER CAU FFYRDD**

Rhaid i'r holl arwyddion, conau, rhwystrau gydymffurfio gyda'r Mesurau Diogelwch Traffig a'r Arwyddion ar gyfer Gwaith Ffyrdd a Sefyllfaoedd

Annisgwyl' (Llawlyfr Arwyddion Traffig – Pennod 8)

<http://www.dft.gov.uk/pgr/roads/tss/tsmanual/> a rhaid darparu gwybodaeth benodol er mwyn sicrhau bod yna wybodaeth ddigonol ar gael i ganiatáu gyrwyr i ddeall bod y ffordd ar gau. Mae enghreifftiau o'r arwyddion, conau a'r rhwystrau sydd eu hangen a lluniau yn dangos yr isafswm o ran yr hyn sydd angen, i'w gweld isod.

### ENGHRAIFFT O ARWYDDION CAU Ffordd



**Esiaml o'r arwyddion, conau a rhwystrau sydd eu hangen ar gyfer cau ffordd.**



Noder: Yn anffodus, mae Cyngor Sir Fynwy yn methu darparu'r arwyddion/conau/rhwystiau priodol i chi. Fodd bynnag, mae yna nifer o Gwmnïau Rheoli Traffig yn yr ardal gyfagos sydd yn medru helpu darparu'r offer sydd angen arnoch.

## **YMGYNGHORIAD (trigolion sydd wedi eu heffeithio'n uniongyrchol o fewn yr ardal sydd i'w chau)**

A yw trigolion wedi eu hymgynggori ynglŷn â'r digwyddiad a/neu'r ffordd sydd i'w chau – YDYNT neu NAC YDYNT

(dylid dileu fel sydd yn briodol)

Mae'r Cyngor hefyd am sicrhau bod y mwyafrif o bobl yn hapus gyda'r digwyddiad sydd wedi ei gynllunio (parti stryd). Fodd bynnag, ni fydd pawb yn medru neu am gymryd rhan yn y digwyddiad, ac felly, rydym yn argymhell eich bod yn hysbysu pawb o'r amser y bydd y parti yn dechrau ac yn gorffen **(NODER – bydd y ffyrdd ond ar gau rhwng 10:00am ac 8:00pm ar y diwrnod)**.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn argymhell eich bod yn danfon llythyr atynt er mwyn rhoi gwybod i'r trigolion am fanylion y digwyddiad (parti stryd) fel bod pawb yn gwybod. Mae enghraifft o'r fath lythyr i'w weld isod:-

### **ESIAMPL O'R LLYTHYR YMGYNGHORI**

#### ***Eich Enw***

Eich Cyfeiriad / Manylion Cyswllt

Annwyl Gymydog,

#### **Ynglŷn â: Parti Stryd ar gyfer y Jiwbilî Platinwm ar ein stryd ar XX Mehefin 2022**

Rwyf yn ysgrifennu er mwyn eich hysbysu (***fy mod i/ein bod ni***) yn bwriadu cynnal parti stryd yn ein stryd er mwyn dathlu'r Jiwbilî Platinwm ar XX Mehefin 2022. (***Rwyf i / Rydym ni***) yn bwriadu gwneud cais i Gyngor Sir Fynwy i'n hawdurdodi i gau ein ffordd i draffig rhwng 10:00am a 8:00pm ar y diwrnod hwnnw.

Mae'r Cyngor wedi rhoi gwybod i ni fod cau'r ffordd yn y modd yma angen sicrhau ein bod yn cynnal mynediad i gerddwyr a'n caniatáu mynediad drwy'r amser i gerbydau'r Gwasanaeth Brys/Argyfwng. Dylid hefyd sicrhau, cyn belled ag sydd yn rhesymol ymarferol, bod trigolion yn medru cael mynediad i ac o'u heiddo a diwallu unrhyw anghenion mynediad eraill sydd ganddynt ar y diwrnod hwnnw. Mae yna drefniadau yn cael eu gwneud er mwyn gosod arwyddion, conau a rhwystrau ar y ffordd (ffyrdd) er mwyn rhoi gwybod i fodurwyr bod y ffordd ar gau yn sgil ein parti stryd.

Nawr ein bod wedi rhoi gwybod i chi am y trefniadau arfaethedig, rydym yn gobeithio y byddwch yn ymuno gyda ni yn y parti a fydd yn cael ei gynnal yn/ar (***nodwch drefniadau'r parti***). Gyda'ch cefnogaeth, rydym yn gobeithio y bydd y parti stryd yn ffordd wych o ddathlu'r Jiwbilî Platinwm.

Fodd bynnag, os oes unrhyw gwestiynau, pryderon neu wrthwynebiad gennych am y trefniadau yma, cysylltwch gyda mi ar (***nodwch y rhif ffôn***). Cofion cynhesaf,

Trefnydd y Digwyddiad/Cymydog

**CYNGOR SIR FYNWY**

**AMODAU CANIATÂD A GWEITHDREFNAU**

1. Rhaid sicrhau bod cerddwyr yn medru cael mynediad at eu heiddo ar y stryd drwy'r amser. Dylid sicrhau bod trigolion yn medru cael mynediad gan ddefnyddio eu cerbydau hefyd cyn belled ag sydd yn rhesymol ymarferol.
2. Rhaid sicrhau bod cerbydau'r Gwasanaeth Argyfwng/Brys hefyd yn medru cael mynediad drwy'r amser. Rhaid gosod unrhyw arwyddion, conau neu rwystrau ar draws y stryd mewn modd a fydd yn golygu eich bod yn medru eu symud yn syth.
3. Rhaid gosod unrhyw arwyddion, conau neu rwystrau yn unol gyda'r Llawlyfr Arwyddion Traffig – Pennod 8 – mewn trefniant priodol sydd yn amlwg ar gyfer y modurwyr sydd yn teithio tuag atynt.
4. Dylid sicrhau bod unrhyw addurniadau yn cael eu hongian mewn modd sydd yn golygu nad ydynt yn rhwystro unrhyw gerbydau o'r Gwasanaeth Argyfwng/Brys sydd o bosib angen mynediad.
5. Nid oes hawl hongian unrhyw addurniadau ac eithrio baneri ac ati o'r goleuadau ar y stryd, arwyddion ffyrdd a chelfi ar y stryd. Ni allant effeithio'n adweithiol ar y goleuadau a rhaid bod y gwasanaethau goleuadau strydoedd yn medru tynnu unrhyw addurniadau yno'n hawdd.
6. Nid oes hawl defnyddio polion neu gyfarpar er mwyn cefnogi neu ddal unrhyw geblau trydanol, a hynny er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel. Nid oes hawl gosod unrhyw bolion i mewn i droedlwybrau, lleiniau canol ffordd neu'r cerbyttfordd.
7. Nid oes hawl cynnau tân neu farbeciw ar, neu ger, y briffordd ac mae hyn yn cynnwys pob un cerbyttfordd, troedlwybrau, lleiniau glas, lleiniau canol a chylch a rowndabowts.
8. Rhaid tynnu unrhyw fyrdau, cadeiriau, rhwystrau ayyb yn syth o'r priffyrdd ar ôl y digwyddiad (parti stryd) a rhaid clirio'r holl sbwriel o'r ardal.
9. Bydd y trefnydd yn gwerthfawrogi bod angen rhoi ystyriaeth briodol i drigolion a threfnu bod pobl hŷn, y rhai sy'n fregus a phlant ifanc iawn yn ddiogel ac yn gysurus. Rhaid cadw unrhyw lefelau sŵn mor isel ag sydd yn bosib a chreu cyn lleied o aflonyddwch ag sydd yn bosib.
10. Drwy gwblhau'r ffurflen indemniad sydd wedi ei hamgáu, byddwch yn sicrhau bod y Cyngor yn cael ei indemnio ac yn parhau wedi ei indemnio, a hynny yn erbyn niwed (gan gynnwys marwolaeth) i unrhyw berson neu golled neu ddifrod i unrhyw eiddo sydd yn medru deillio'n uniongyrchol o weithred, diffyg neu esgeulustod ar eich rhan a'n ymwneud gyda'r digwyddiad, ac yn erbyn unrhyw geisiadau, gofynion, niwed, costau, ffioedd a threuliau sydd yn ymwneud gyda hyn.

11. Rydym yn **ARGYMELL YN GRYF** fod y trefnydd yn trefnu yswiriant atebolrwydd trydydd parti hyd at isafswm o bum miliwn o bunnoedd a fydd yn delio gyda'r hyn sydd yn medru digwydd yn sgil y digwyddiad (parti stryd) ac yn medru cynnig tystiolaeth o hyn os oes angen.
12. Bydd y trefnydd yn cynnig dyluniad sy'n dangos 'faint o'r ffordd' sydd i'w gynnwys yn y cais.
13. Bydd y trefnydd yn cynnig tystiolaeth bod yr holl rai hynny sydd wedi eu heffeithio gan y ffordd yn cau yn cytuno eu bod yn cefnogi'r digwyddiad ac yn rhoi eu caniatâd bod modd bwrw ymlaen gyda'r digwyddiad.
14. Y trefnydd sydd yn gyfrifol am ddarparu a chynnal (yn ystod y digwyddiad) a thynnu (ar ôl y digwyddiad) unrhyw rwystrau ar gyfer cau'r ffordd ac unrhyw arwyddion dargyfeirio. Mae Cwmnïau Rheoli Traffig Arbenigol yn medru darparu'r gwasanaeth hwn ond dylai trefnydd y digwyddiad fod yn ymwybodol mai ef/hi sydd yn gyfrifol am y costau yma, ac maent yn medru bod yn sylweddol.



**CYNGOR SIR FYNWY**  
**YR ADRAN DRAFFIG A DATBLYGU**

**Awdurdodiad i gau ffordd ar gyfer Digwydded Cymunedol  
(Parti Stryd) ar y Briffordd**

**FFURFLEN INDEMNIAID**

Rwyf yn cytuno gyda'r amodau caniatâd sydd wedi eu hamlinellu gan Gyngor Sir Fynwy ar gyfer awdurdodi parti stryd ar y briffordd (rwyf wedi derbyn copi) ac felly'n gwneud cais i gau'r ffordd fel sydd wedi ei fanylu yn y cais sydd wedi ei atodi ac fel sydd wedi ei ddangos ar y dyluniad sydd wedi ei atodi. Rwyf hefyd yn cytuno i roi indemniad i'r Cyngor yn erbyn unrhyw gais am niwed personol neu ddifrod sydd yn deillio o'r digwyddiad neu mewn cysylltiad gyda'r Digwyddiad Arbennig fel sydd wedi ei amlinellu isod ac fel sydd **wedi ei amlinellu yn yr Amodau Caniatâd a Gweithdrefnau.**

<b>Enw'r Digwyddiad Cymunedol:</b>	Jiwbilî Platinwm (Parti Stryd)
<b>Lleoliad:</b>	
<b>Dyddiad y Digwyddiad:</b>	XX Mehefin 2022
<b>Amser y Digwyddiad</b>	O:                      I:
<b>Enw'r Trefnydd:</b>	
<b>Llofnod:</b>	
<b>Dyddiad:</b>	

**NODER OS GWELWCH YN DDA** - Ni fydd ceisiadau sydd yn cael eu derbyn, heb ffurflen indemniad wedi ei llofnodi, yn cael eu prosesu.

**Beth i'w wneud nesaf?**

Danfônwch y ffurflen gais hon sydd wedi ei chwblhau, gan gynnwys cynllun ar gyfer cau'r ffordd ac unrhyw lythyron sy'n gwrthwynebu'r cynnig, gyda'r ffurflen indemniad wedi ei llofnodi, i'r cyfeiriad canlynol:

Cyngor Sir Fynwy,  
Yr Adran Draffig a Datblygu,  
Blwch S.P. 106  
Cil-y-coed  
NP26 9AN

Bydd y Cyngor wedyn yn asesu eich cais ar gyfer cau'r ffordd (ffyrdd) ac yn rhoi gwybod i chi a ydym wedi cymeradwyo eich cais ac a oes rhywbeth arall sydd angen i chi ystyried.

**RHAID CYFLWYNO BOB UN CAIS I'R CYNGOR ERBYN 3YDD MAI 2022**

Tra y byddwn yn gwneud pob ymdrech i brosesu unrhyw geisiadau sydd yn cael eu derbyn ar ôl y dyddiad uchod, nid yw'r Cyngor yn medru sicrhau y bydd unrhyw ffordd yn medru cael ei chau'n gyfreithlon er mwyn medru cynnal parti stryd.